Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn

# 2023-2024

## 1 Diben

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi prif waith Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Prif rôl y Pwyllgor yw darparu cyngor annibynnol i Brif Arolygydd EF a Swyddog Cyfrifyddu Estyn. Felly, yn ystod y flwyddyn, mae’r Pwyllgor wedi delio â’r prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu trwy ganlyniadau’r archwiliadau mewnol ac allanol yn ogystal â’r broses hunanwerthuso a phrosesau eraill. Mae gan y Pwyllgor rôl allweddol mewn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio a monitro ymatebion rheolwyr i’r materion a godwyd.

1.2 Mae’r adroddiad yn disgrifio’r modd y bu i’r Pwyllgor gyflawni’r cyfrifoldebau hyn yn ystod 2023-2024 a chanlyniad y gwaith mewn perthynas â gwelliannau pellach wrth lywodraethu a rheoli’r sefydliad. Mae’r adroddiad wedi ei fwriadu i lywio Datganiad Llywodraethu’r Swyddog Cyfrifyddu a fydd yn cael ei gynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Estyn ar gyfer 2023-2024.

## 2 Y Pwyllgor yn ystod 2023-2024

2.1 Roedd aelodau’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| David Jones | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Maria Rimmer | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Brett Pugh | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Charlotte Williams | Cyfarwyddwr Anweithredol |

Roedd y mynychwyr o blith rheolwyr Estyn yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Owen Evans | PAEF, Estyn |
| Jassa Scott | Cyfarwyddwr Strategol, Estyn |
| Claire Morgan | Cyfarwyddwr Strategol, Estyn |
| Mererid Wyn Williams | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog, Estyn |

Gellir gweld cylch gorchwyl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn a dangosir tâl yr aelodau yng Nghyfrifon Adnoddau Blynyddol Estyn (mae’r ddwy ddogfen ar gael ar wefan Estyn). Ar gyfer y flwyddyn gyfan, Mererid Wyn Williams oedd y prif gyswllt a hwylusydd ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor, gyda chymorth Mark Harris (Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes) a Cheryl Davies (Pennaeth Llywodraethu.

2.2 Yn ystod 2023-2024, parhaodd Archwilio Cymru i ddarparu gwasanaeth archwilio allanol. Darparodd TIAA y gwasanaeth archwilio mewnol dros y flwyddyn.

2.3 Yn unol â’r hyn a drefnwyd, cyfarfu’r Pwyllgor ar 9 Mai 2023, 10 Gorffennaf 2023, 4 Medi 2023, 14 Tachwedd 2023 a 27 Chwefror 2024, sef un cyfarfod yn fwy nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gais Archwilio Cymru am amser ychwanegol i archwilio cyfrifon Estyn, gan olygu y cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol ym mis Medi. Cafwyd presenoldeb llawn mewn tri o’r pum cyfarfod gan aelodau Estyn, ac roedd pedwar o’r pum cyfarwyddwr anweithredol yn bresennol yn y ddau arall. Mae’n arferol i gyfarfodydd ystyried adroddiadau’n ymwneud â gwaith archwilio

a gwblhawyd o fewn y flwyddyn bresennol a'r flwyddyn ariannol flaenorol lle cwblhawyd y gwaith maes archwilio yn agos at ddiwedd y flwyddyn; roedd hyn yn wir am 2022-2023.

2.4 Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ychwanegol eraill yn ystod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau neu faterion. Roedd cynrychiolwyr yr archwilwyr allanol a mewnol yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd a rhoddodd Robert Gairey (Estyn) gymorth ysgrifenyddol i'r Pwyllgor, gyda Michaela Benjamin (Estyn) yn gwneud cofnodion yng nghyfarfod mis Medi. Mynychodd aelodau eraill o staff Estyn y Pwyllgor pan oedd materion yn gysylltiedig â'u cyfrifoldebau yn cael eu trafod.

2.5 Roedd safon yr adroddiadau, ymateb rheolwyr, olrhain argymhellion a chyfraniad holl aelodau'r Pwyllgor yn cael eu nodi ym mhob cyfarfod. Roedd aelodau'r Pwyllgor, sy'n gweithredu'n dda fel grŵp, yn parhau i holi cwestiynau perthnasol ac amserol. Mae gan aelodau'r Pwyllgor yr arbenigedd a'r profiadau gofynnol.

2.6 Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i weithredu'n electronig, gyda'r holl bapurau'n cael eu cyflwyno i aelodau trwy allrwyd Estyn neu drwy atodiadau e-bost. Cynhaliwyd pob cyfarfod o bell, gan ddefnyddio Microsoft Teams. Fe wnaeth y rhai a oedd yn bresennol werthuso'r holl gyfarfodydd, ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ar y cyfan. Mae adborth o'r fath ar ddiwedd cyfarfodydd, sy'n nodwedd o holl gyfarfodydd llywodraethu Estyn, yn galluogi pawb sy'n bresennol i fyfyrio ar eu gwaith yn barhaus, ac mae hyn yn arwain at welliannau cyflym i ansawdd lle y bo'r angen.

## 3 Amgylchedd rheoli

### 3.1 Archwilio Mewnol

3.1.1 Trwy gydol y flwyddyn, mae TIAA wedi bod yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol, yn sgil ymestyn eu contract am flwyddyn ar 31 Mai 2023. Mae'r pwyllgor wedi nodi ychydig o oedi wrth gwblhau adroddiadau archwilio yn derfynol yn sgil cwblhau gwaith ar y safle – trafodwyd hyn yng nghyfarfod Chwefror 2023 a rhoddwyd camau ar waith i sicrhau prosesau mwy amserol a chydlynedig ar gyfer symud adroddiadau archwilio trwy'r broses o'u cwblhau'n derfynol. Mae hyn wedi golygu bod mwyafrif adroddiadau terfynol 2023-2024 wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor yng nghyfarfod Mai 2024. Mae'r adroddiadau wedi helpu i wella prosesau adnabod a rheoli risg. Estynnwyd y contract gyda TIAA am flwyddyn arall, ar 31 Mai 2024. Ni chwblhawyd cynllun archwilio TIAA ar gyfer 2024-2025 tan 21 Mai 2024 – mae'r pwyllgor wedi gofyn bod hwn yn cael ei gytuno cyn 31 Mawrth 2024 yn y dyfodol, gan drefnu cynnal cyfarfod y Gwanwyn yn nes at ddiwedd Mawrth i hwyluso hyn.

3.1.2 Ar sail rhaglen waith gytûn (a sefydlwyd yn dilyn proses Asesiad Archwiliad Anghenion), fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adolygu'r adroddiadau canlynol a ddarparwyd gan yr Archwilwyr Mewnol (TIAA).

| Adroddiadau | Sgôr sicrwydd | Nifer yr argymhellion (sgôr blaenoriaeth) |
|---|---|---|
| Fframwaith rheoli risg * | Rhesymol | 15 (4 pwysig, 7 arferol, 4 gweithredol) |
| Cynllunio'r gweithlu a dyrannu * | Cynghorol | 21 (2 frys, 6 pwysig, 2 arferol, 11 gweithredol) |

| | | |
|---|---|---|
| Rheolaethau ariannol allweddol * | Sylweddol | 6 (3 arferol, 3 gweithredol) |
| Teithio a chynhaliaeth * | Sylweddol | 2 (1 arferol, 1 gweithredol) |
| Parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb * | Cyfyngedig | 13 (1 frys, 10 pwysig, 1 arferol, 1 gweithredol) |
| Recriwtio a hyfforddi * | Sylweddol | 2 (1 arferol, 1 gweithredol) |
| Seiberddiogelwch * | Rhesymol | 4 (4 pwysig) |
| Monitro ac adrodd ar berfformiad * | Sylweddol | 1 (gweithredol) |
| Cynaliadwyedd ac Adrodd Amgylcheddol | Sylweddol | Dim argymhellion |
| Rheoli Absenoldebau | Sylweddol | 4 (3 arferol, 1 gweithredol) |
| Arolygu ar gyfer y Dyfodol | Sylweddol | 2 (arferol) |
| Rheoli rhaglenni – adolygiadau thematig | Rhesymol | 6 (2 pwysig, 3 arferol, 1 gweithredol) |
| Rheolaethau ariannol allweddol | Rhesymol | 3 (1 pwysig, 2 arferol) |
| Lles staff | Ad-drefnwyd ar gyfer 2024-2025 | |

* Ymgymerwyd â'r gwaith archwilio yn 2022-2023 ac adroddwyd arno yn 2023-2024

3.1.3 Cynllunnir cwmpas Archwilio Mewnol er mwyn darparu lefel resymol o sicrwydd fod systemau llywodraethu a rheoli risg allweddol Estyn yn gweithredu'n effeithiol a bod rheolaethau mewnol cadarn ar waith. Mae'r archwilwyr mewnol wedi dweud eu bod yn fodlon ag ymatebion y rheolwyr i'w hargymhellion.

3.1.4 Nodwedd arall o gwmpas Archwilio Mewnol yw cynnal adolygiadau dilynol o argymhellion y cytunwyd arnynt yn flaenorol ynghyd ag adolygiadau cydymffurfio neu hapwirio.  Mae'r system olrhain ar gyfer yr argymhellion ym mhob adroddiad archwilio wedi parhau i gael ei defnyddio yn ystod y flwyddyn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth fel dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu penodol, perchnogaeth, adroddiadau cynnydd gan reolwyr a ph'un a oedd y camau gweithredu wedi cael eu cwblhau gan Estyn a'u gwirio gan Archwilio Mewnol. Yn ystod y flwyddyn hon, argymhellodd y Pwyllgor dynhau gweithgareddau Estyn yn y maes hwn, gyda mwy o eglurder wrth gyflwyno gwybodaeth olrhain a mwy o gywirdeb wrth gydlynu dyddiadau cwblhau camau gweithredu. Gan y bu cynnydd wrth roi ar waith y camau gweithredu yn gysylltiedig ag archwiliadau parhad busnes a chynllunio'r gweithlu yn arafach na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, rhoddwyd sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg trwy adroddiadau diweddaru yn esbonio'r cydgysylltiadau rhwng yr argymhellion hynny ynghylch gweithredu system gynllunio newydd, a darparwyd diweddariadau pellach ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

3.1.5 Parhaodd Helen Cargill yn Bennaeth Archwilio Mewnol am flwyddyn ariannol 2023-2024 gyfan. Mae TIAA wedi rhoi sicrwydd nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yr hoffent adrodd amdano a'u bod wedi cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus wrth ymgymryd â'u gwaith archwilio.

3.1.6 Dywed barn flynyddol TIAA ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 **"Mae TIAA yn fodlon, o ran y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Estyn brosesau rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu."**

### 3.2 Archwilio Allanol

3.2.1 Cyflwynodd Archwilio Cymru y ddogfen Cyflawniadau'r Archwiliad yn y cyfarfod ym Mai 2023 ar gyfer archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn 2022-2023. Eglurodd y ddogfen hon gyfrifoldebau cymharol Estyn ac Archwilio Cymru.

3.2.2 Adolygwyd y gwaith Archwilio ar gyfer cyfrifon 2022-2023 yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Medi 2023. Yn adroddiad ISA 260 i'r rheiny sydd â gofal am lywodraethu, **cyhoeddodd Archwilio Cymru farn archwilio ddiamod**, gan ddatgan eu bod yn fodlon i PAEF fel Swyddog Cyfrifyddu gymeradwyo cyfrifon 2022-2023. Nododd Archwilio Cymru nad oedd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ar eu rhan nhw.

3.2.3 Nododd Archwilio Cymru wallau niferus wrth lunio'r cyfrifon drafft, ac wrth ddatgelu'r ffigurau cymharol o 2021-2022, gan argymell bod Estyn yn cynnal adolygiad ansawdd uchel cyn cyflwyno'r cyfrifon drafft yn y dyfodol. Nodwyd y dylai hyn leihau nifer y gwallau tebyg sy'n codi yn y setiau o gyfrifon drafft a gyflwynir i'w harchwilio yn y dyfodol, a ddylai, yn ei dro, leihau lefel y gwaith archwilio sy'n ofynnol. Cytunodd Estyn i weithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith.

## 4 Cydweithrediad rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol

4.1 Mae'r Pwyllgor wedi trafod y modd y mae'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cyfathrebu a gweithio gyda'i gilydd i leihau lefel unrhyw waith wedi'i ddyblygu. Mae TIAA ac Archwilio Cymru wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor bod deialog a chydlynu parhaus wedi digwydd eleni.

4.2 Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

## 5 Llywodraethu Corfforaethol

5.1 Gwerthuswyd ansawdd y gwaith archwilio a gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio sawl dull gwahanol, sef:

- gwerthusiad ar ddiwedd cyfarfod a hunanwerthusiad blynyddol gan aelodau
- olrhain y camau gweithredu a gytunwyd yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor
- arfarniad blynyddol o Gyfarwyddwyr Anweithredol gan PAEF/Swyddog Cyfrifyddu
- adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl
- cyfarfod blynyddol gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol

5.2 Yng ngwanwyn 2024, cynhaliwyd ymarfer hunanwerthuso o ran effeithiolrwydd y pwyllgor a'i drefniadau – ystyriwyd y canlyniadau mewn cyfarfod ar wahân a gynhaliwyd gan y cyfarwyddwyr anweithredol, gyda Michaela Benjamin yn bresennol i wneud cofnod o'r argymhellion. Roedd boddhad cyffredinol â'r trefniadau, er pwysleisiwyd pwysigrwydd mwy o amseroldeb o ran cyflwyno cynlluniau ac adroddiadau archwilio. Hefyd, awgrymwyd bod Estyn yn gwneud trefniadau ar gyfer sesiynau briffio i'r aelodau ar bynciau gweithdrefnau chwythu'r chwiban, ac ar y pwyntiau technegol sy'n gysylltiedig ag archwilio cyfrifon. Mae Estyn wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn trwy gynnal gweithdy ar chwythu'r chwiban

a cheisio'r arbenigedd perthnasol gan Archwilio Cymru i gynorthwyo â hyfforddiant cyllid.

5.3 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau gyda'r papurau er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ei brif gyfrifoldebau. Caiff Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn ei adolygu yn y Bwrdd Strategaeth hefyd, ac fe gaiff Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ei ddiweddaru fel y bo'n briodol.

5.4 Mae datganiad sicrwydd chwarterol y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog yn parhau i fod yn rhan ganolog o drafodaethau'r Pwyllgor ac mae'n rhoi manylion am lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol Estyn. Mae'r datganiad hwn yn llywio'r Datganiad Llywodraethu, sydd wedi bod ar agenda'r Pwyllgor trwy gydol 2023-2024.

5.5 Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor yn adolygu risgiau'r Tîm Cyllid. Dyma gofrestr risg benodol, sy'n canolbwyntio ar y risgiau yn gysylltiedig â phrosesau a gweithdrefnau ariannol Estyn. Mae'r risgiau'n cynnwys asesiad o'r rheolaethau i ddarganfod twyll, a gwerthusiad o effeithiolrwydd neilltuo dyletswyddau. Adolygwyd y gofrestr yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2023.

5.6 Mae'r eitem sefydlog ar ddiweddariadau cyfreithiol a rheoleiddio gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn sicrhau bod yr aelodau'n cael gwybod yn llawn am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar sefyllfa Estyn o ran y gyfraith, adrodd neu gydymffurfio, i'r graddau y mae'n effeithio ar waith y Pwyllgor. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog hefyd yn darparu diweddariadau rheolaidd gan Grŵp Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a'i Is-Grŵp Swyddogion Cyllid, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth berthnasol at Swyddogion Cyfrifyddu. Mae PAEF yn darparu diweddariad llafar ym mhob cyfarfod ar y datblygiadau yn Estyn ac unrhyw newidiadau allanol a allai effeithio ar waith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor.

## 6 Risg a Thwyll

6.1 Mae Estyn wedi mireinio ei ymagwedd at reoli risg eleni. Mae'r Pwyllgor yn fodlon fod gan Estyn Bolisi priodol ar Reoli Risg sy'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd a bod ei gofrestr risg yn adlewyrchu'n ddigonol y risgiau y mae Estyn yn eu hwynebu a'u heffaith debygol. Mae'r gofrestr risg hefyd yn nodi'r camau a gymerwyd gan reolwyr i liniaru a dileu'r risgiau. Gan fod aelodau'r Pwyllgor yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr anweithredol ar y Bwrdd Strategaeth hefyd, mae ganddynt olwg dda ar risgiau ac maent yn cymryd rhan uniongyrchol mewn trafodaethau am strategaethau a chamau gweithredu rheoli risg.

6.2 Mae'r pwyllgor yn nodi'r gwaith a wnaeth Estyn eleni i adolygu a mireinio'r gofrestr risg strategol, gan symud i ffwrdd o'r gofrestr risg gorfforaethol flaenorol ac ailneilltuo ac ailddosbarthu risgiau.

6.3 Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon fod proses ddigonol ar waith i hysbysu am achosion o dwyll neu dwyll posibl pan fyddant yn codi a bod Estyn wedi rhoi digon o eglurder a hyfforddiant i staff ynglŷn â sut i ddelio ag achosion o'r fath. Rydym hefyd yn cael gwybod gan ein Harchwilwyr Allanol a Mewnol pan fydd twyll canfyddedig wedi cael

ei nodi a sefydlwyd trefniant cysylltu priodol gyda'r swyddfa cymorth arbenigwyr twyll yn Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd adroddiadau sicrwydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg nad oedd unrhyw achosion o dwyll neu amheuaeth o dwyll wedi codi yn ystod y flwyddyn.

## 7 Materion ychwanegol

7.1 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cael gwybodaeth ac wedi adolygu'r materion canlynol:

- Manylion am yr holl ildiadau hawl ac ymadawiadau
- Ffioedd cyfreithiol ac ymgynghoriaeth
- Datganiad Archwilio Cymru – Ymholiadau'r archwiliad i'r rheiny sydd â gofal am Lywodraethu a Rheoli
- Papurau a diweddariadau amrywiol wedi eu darparu gan TIAA ac Archwilio Cymru

## 8 Casgliad

8.1 Mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn unol â safon dderbyniol yn ystod y flwyddyn ac wedi cael gwybodaeth briodol, reolaidd ac amserol am gynhyrchu cyfrifon adnoddau Estyn, ac yn benodol am amgylchedd rheoli Estyn. **Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon y gall y Swyddog Cyfrifyddu fod yn sicr i raddau helaeth wrth gwblhau'r Datganiad Llywodraethu fod sefyllfa Estyn o ran rheoli, risg a llywodraethu yn 2023-2024 yn gadarn**.

## 9 Diolchiadau

9.1 Rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi mynychu'r Pwyllgor am eu gwaith a'u cyfraniad yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith staff Estyn wedi bod yn ganolog i waith y Pwyllgor a gwerthfawrogir eu cyfraniadau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Gareth Lucey o Archwilio Cymru a Helen Cargill o TIAA am eu cymorth a'u cyngor yn ystod y flwyddyn.

Emyr Roberts
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn
Medi 2024